St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

# WEDI'I LLYWIO GAN DRAWMA

## Datganiad o Ymrwymiad y Coleg

Yng Ngholeg Dewi Sant, rydym wedi ymrwymo'n angerddol i greu amgylchedd wedi'i lywio gan drawma sy'n hyrwyddo urddas, iachâd, gwytnwch a thwf i bob aelod o'n cymuned. Rydym yn cydnabod effaith sylweddol trawma ar fywydau unigolion ac yn deall bod ymagwedd dosturiol a llawn cydymdeimlad yn hanfodol i gefnogi ein myfyrwyr a'n staff ar eu teithiau academaidd a phersonol.

Fel sefydliad Catholig, credwn fod pob unigolyn wedi'i greu ar ddelw Duw, felly mae gan bob person urddas cynhenid, waeth beth fo'i ethnigrwydd, credo, rhyw, rhywioldeb, oedran neu allu. Ni ddylid peryglu urddas unrhyw fod dynol. Un o egwyddorion canolog ein datganiad cenhadaeth yw "ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch". Mae hyn yn llywio ein holl weithredoedd ac yn enwedig ein gofal i greu amgylchedd dysgu sy'n seiliedig ar drawma.

Gyda'r ymrwymiad hwn, rydym yn addo:

- **Blaenoriaethu Diogelwch a Lles:** Sicrhau diogelwch a lles aelodau cymuned ein coleg trwy feithrin amgylchedd o ymddiriedaeth, parch a chyfathrebiad agored. Cydnabod urddas pawb.
- **Meithrin Empathi a Dealltwriaeth:** Hyrwyddo empathi a dealltwriaeth ym mhob rhyngweithiad, gan gydnabod bod profiadau ac anghenion pob unigolyn yn unigryw.
- **Cofleidio Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Dathlu amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol lle mae pob llais yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.
- **Meithrin Gwytnwch a Chryfderau:** Grymuso ein myfyrwyr a staff trwy feithrin gwytnwch a chydnabod ac adeiladu ar eu cryfderau a'u galluoedd.
- Gweithredu Arferion Wedi'u Llywio gan Drawma Integreiddio egwyddorion sydd wedi'u llywio gan drawma yn ein polisïau, rhaglenni, ac arferion addysgu i greu amgylchedd dysgu cefnogol a meithringar.
- **Addysgu a Chodi Ymwybyddiaeth:** Addysgu cymuned ein coleg am drawma, ei effaith, a phwysigrwydd gofal wedi'i lywio gan drawma.
- **Darparu Mynediad i Wasanaethau Cymorth:** Sicrhau mynediad at adnoddau ysbrydol ac iechyd meddwl a gwasanaethau cymorth sy'n darparu ar gyfer anghenion unigryw pawb.
- **Gwella ac addasu'n barhaus:** Asesu ein mentrau wedi'u llywio gan drawma yn rheolaidd a cheisio adborth yn weithredol i wella ein hymagwedd yn barhaus. Byddwn yn ymdrechu i gefnogi datblygiad ysbrydol, cymdeithasol ac emosiynol parhaus pawb yn ein cymuned.

Trwy fabwysiadu'r ymrwymiad wedi'i lywio gan drawma hwn, rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd coleg sy'n grymuso unigolion i ffynnu'n academaidd, yn emosiynol, yn ysbrydol ac yn gymdeithasol, ac i gofleidio dysgu gydol oes a thwf.